| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 25 Mehefin 2013 |
| **TEITL** | Datganoli Gwasanaethau Ychwanegol i Ysgolion |
| **PWRPAS** | Ystyried pa wasanaethau dylwn ystyried datganoli erbyn 2014/15 |
| **ARGYMHELLIAD** | |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Sian Gwenllian |

## (A) Cefndir

Yn ei ddatganiadau mae'r Gweinidog Addysg wedi nodi yn glir ei awydd i weld mwy o gyllid yn cael ei drosglwyddo i ysgolion.

Addewid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (WLGA/ADEW) yw yr eir ati i gynyddu'r ganran ddatganoli i 80% erbyn 2012/2013 ac yna i 85% erbyn 2014/2015.

Yn 2011/12 roedd Llywodraeth Cymru (Ll.C.) yn cyfrifo bod Cyngor Gwynedd wedi datganoli 75.2% o'r elfen 'ysgolion' o'r gyllideb (gros o grantiau penodol) Addysg (cyfartaledd Cymru 76.2%).

Trwy ddatganoli cyllid gwasanaethau Integreiddio, Gwybyddiaeth a Dysgu ac Arlwyaeth i Ysgolion Cynradd llwyddwyd i gynyddu'r canran datganoli i 80.4% yn 2012/13.

Yn dilyn adolygiad o grantiau penodol Addysg am 2013/14, darganfuwyd nad oedd elfen o'r grantiau yn ymwneud ag addysg disgyblion oedran ysgol nac yn digwydd oddi fewn i ysgol. Canlyniad yr adolygiad oedd addasu sail cwblhau ffurflenni cyllideb Llywodraeth Cymru a arweiniodd at gynyddu'r canran datganoli i 82.25% am 2013/14.

**(B) 85% yn 2014/15**

Mae angen cyrraedd canran datganoli 85% erbyn 2014/15 os am gydymffurfio gyda'r addewid.

Gyda chanran Gwynedd yn 82.25% yn 2013/14, **bydd angen datganoli cyllid ychwanegol cyfwerth ag £2.8miliwn yn 2014/15** (yn fras yng Ngwynedd mae cynyddu datganoli 1% cyfateb i ddatganoli £1miliwn).

Amgaeaf daenlen (Atodiad 1) sy'n amlygu gwasanaethau addysg 'canolog' ysgolion yn 2013/14.

Gofynnir i'r Fforwm Cyllid Ysgolion ystyried y mater a datgan pa wasanaeth(au) y dylai'r Adran Addysg ystyried eu datganoli erbyn 2014/15.

Bwriedir ymgynghori gyda holl ysgolion Gwynedd ar y mater ar ddechrau tymor yr Hydref 2013.